# Allwch chi fod yn “Asiant er Newid”?

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

---

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Mae Cyngor Celfyddydau Cymru am drawsnewid sut rydym ni'n ymgysylltu â ac yn datblygu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol a phobl Fyddar ac anabl i fwynhau, cymryd rhan a gweithio yn y Celfyddydau.

Y Cyngor yw'r corff swyddogol sy'n datblygu ac ariannu celfyddydau Cymru. Rydym ni'n cynnig grantiau gyda'r arian a gawn gan Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill.

Ein "gweledigaeth" yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd ein bywyd a'n lles mewn gwlad sy'n lle cyffrous a bywiog i bobl fyw a gweithio ynddi. Rydym ni am gydnabod hawl diwylliannol a chreadigol pob unigolyn a chymuned ledled Cymru.

Mae'r pandemig wedi newid ein byd. Felly rhaid i'r celfyddydau – a'r Cyngor – newid. Ers amser maith gwrthodir cyfleoedd i bobl ac artistiaid Duon, Asiaidd, ethnig amrywiol, Byddar ac anabl greu celfyddyd neu weithio yn y maes ar eu telerau eu hunain. Mae ystadegau'n profi mai prin yw amrywiaeth ar draws sector y celfyddydau.

Rydym ni am drawsnewid a gwella amrywiaeth ein bwrdd llywodraethu (y Cyngor) a'n staff. Rydym ni hefyd am greu newid yn y sefydliadau rydym ni'n eu hariannu.

Os gallwch chi ein helpu i greu'r newid, hoffem ni glywed gennych.

## Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn newid ...

Mae pobl â phrofiad byw yn codi eu llais a dweud ein bod ni ac eraill yn y maes yn atgyfnerthu gwahaniaethu a’n bod yn syrthio’n fyr o’r safon ddisgwyliedig o ran cydraddoldeb a chynhwysiant.

Ers talwm mae amrywiaeth yn flaenoriaeth inni. Mewn rhai meysydd y gwnaethom ni gynnydd. Ond rhaid inni wneud llawer mwy a hynny’n gyflym.

Gwelwn anghydraddoldebau strwythurol yn y Cyngor ac ar draws y celfyddydau. Gwelwn y trawma y mae hiliaeth a gwrthanabledd strwythurol yn eu hachosi. Mae grym a braint yn rhwystr difrifol i gydraddoldeb a chynhwysiant.

Mae'n bryd gweithredu ar frys i greu newid strwythurol a sefydlu’r broses o gael y gwirionedd a chymodi. Rydym ni’n derbyn ein cyfrifoldeb i greu hyn.

Rydym ni wedi ymrwymo’n glir i newid. Rydym ni’n dweud hyn yn ein datganiad ar *Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys* ac yn ein cefnogaeth i'r Saith Egwyddor Gynhwysol ar gyfer Adferiad Cynhwysol i’r celfyddydau a ddaeth o’r ymgyrch *Ni Chawn ein Dileu*.
https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/mae-bywydau-du-o-bwys-0
https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/gweithion-ddiogel-drwyr-coronafeirws-7-egwyddor-gynhwysol-i-sefydliadau

Da yw dweud ond gwell yw gwneud. Rhaid inni weithredu ar ein hymrwymiad. Bydd yr “Asiant er Newid” yn arwain y gad.

## Beth fydd yr “Asiant er Newid” yn ei wneud?

Rydyn ni'n gofyn i'r “Asiant dros Newid” i ddefnyddio ei wybodaeth a'i arbenigedd i nodi rhwystrau sy'n atal cynhwysiant a datblygu camau gweithredu i greu newid. Bydd yn arwain proses o newid diwylliant y Cyngor. Ei wybodaeth a'i brofiad byw fydd yn llunio a datblygu’r gwaith.

Bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor a staff Cyngor y Celfyddydau, gan gysylltu â phrofiadau byw artistiaid amrywiol yng nghymunedau Cymru a thynnu arnynt. Bydd yn ymwneud â phob maes o'n gwaith, codi ymwybyddiaeth ein staff a’u datblygu’n broffesiynol. Caiff gefnogaeth i newid ein ffordd o weithio, i nodi ac adnabod y rhwystrau sy'n atal cynhwysiant. Ein huchelgais yw bod holl staff ac aelodau'r Cyngor, heddiw ac yn y dyfodol yn “Asiantwyr er Newid”.

Yr Asiant er Newid fydd yn llunio’r swydd a’i rhaglen waith ac nid ydym ni am nodi popeth ymlaen llaw. Ond bydd saith pheth yn arbennig o bwysig:

1. Cychwyn ac arwain gwaith i wneud ein polisïau, ein cynlluniau a'n cyllid yn fwy hygyrch i bobl Fyddar ac anabl ac i bobl Ddu, Asiaidd a phobl sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant.

2. Datblygu rhwydweithiau gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yng Nghymru sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y celfyddydau yng Nghymru, yn enwedig y rheini o grwpiau lleiafrifol ac sydd wedi profi hiliaeth a gwrthanabledd yn y celfyddydau

3. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a'i Phwyllgorau (fel y bo'n briodol)

4. Nodi a gweithredu camau i gynyddu amrywiaeth y Cyngor a'i staff

5. Ein cefnogi wrth i ni ddiffinio disgwyliadau a thargedau newydd ar gyfer ein Portffolio Celfyddydau Cymru (ein rhwydwaith ledled y wlad o sefydliadau a ariennir gan refeniw)

6. Nodi a datblygu hyfforddiant priodol ar gyfer staff Cyngor y Celfyddydau a'r sector celfyddydau ehangach

7. Datblygu dulliau tryloyw a chadarn o fonitro a gwerthuso effaith ein gwaith ac adrodd amdani

## Beth yw'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen?

Bydd yr Asiant yn unigolyn eithriadol, sy’n angerddol am gydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd yn frwdfrydig am ein nod o wneud y celfyddydau’n decach, yn fwy amrywiol ac yn fwy cynrychioliadol o'n cymunedau.

Y cymhwyster pwysicaf fydd ei allu i ddefnyddio ei brofiad byw i ymgysylltu â chymunedau eraill a dangynrychiolir i'n helpu i wella ein gwaith. Rydym yn cydnabod y llwybrau llai traddodiadol a'r teithiau datblygiadol y mae llawer o unigolion wedi'u dilyn trwy eu gwaith ac rydym yn gwerthfawrogi profiad byw fel arbenigedd.

Bydd yn deall sut i ddatblygu’r agenda cydraddoldeb neu wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd eraill, gan helpu cymunedau i fynd i’r afael â gwahaniaethu a sicrhau mynediad teg at gronfeydd ac adnoddau. Rydym yn cydnabod na fydd gan ymgeiswyr o reidrwydd brofiad yn yr holl agendâu cydraddoldeb yr ydym am yrru cynnydd ynddynt, ond rydym wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth ychwanegol wedi'i theilwra lle mae hynny'n wir. Bydd dealltwriaeth o'r cyd-destun yng Nghymru yn gaffaeliad i'r rôl hon. Bydd yn huawdl i ddarbwyllo pobl a gall ddod o hyd i atebion ymarferol.

## Ein hymrwymiad i gefnogi’r Asiant

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru rydym yn cydnabod nad yw newid bob amser yn broses gyffyrddus. Rydym yn barod i gael ein herio ac yn derbyn bod braint a grym yn rhan o’n strwythur a bydd raid newid hynny.  Mae hon yn debygol o fod yn rôl heriol, felly byddwn yn sefydlu grŵp cymorth i'ch helpu a'ch tywys yn eich gwaith. Bydd y grŵp yn cynnwys aelodau'r Cyngor a phobl â phrofiad byw penodol sy'n annibynnol ar Gyngor y Celfyddydau.

Rydym yn cydnabod bod newid yn cymryd amser ac y gallai fod angen cyfnod o ymchwil ac ymgyfarwyddo ar ddechrau'r siwrnai hon. Adlewyrchir hyn yn hyd y contract yr ydym yn ei gynnig.

## A ydych chi felly â diddordeb mewn gweithio gyda ni?

Mae hon yn rôl hanfodol bwysig i ni, ac yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon y celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl Fyddar ac Anabl a phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol o dan reolau gweithredu cadarnhaol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae’n swydd am ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o'i hymestyn am flwyddyn arall.

Gellir cyflwyno'r gwaith mewn nifer o wahanol ffyrdd ac rydym yn cadw meddwl agored am y ffordd orau i symud ymlaen. Efallai y byddwch chi'n gweithio gyda ni trwy gontract ar gyfer gwasanaethau neu ar sail gyflogedig. Byddwn yn hyblyg wrth ariannu'r dull cywir sy'n gweithio. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r rôl hon fod wrth wraidd ein penderfyniadau. Bydd gennych gyswllt rheolaidd ag aelodau'r Cyngor ac yn gweithio ochr yn ochr â'n uwch dîm arweinyddiaeth i lywio a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

Y cyflog / ffi ar gyfer y rôl hon yw £59,269 y flwyddyn.

Bydd y dull a'r rhaglen waith yn cael eu nodi trwy'r broses ddethol. Bydd y broses hon yn ein helpu i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni'r rôl a'i rhaglen waith. Yna cytunir ar gontractau, telerau ac amodau a chynllun gwaith manwl ar y cyd â'r ymgeisydd llwyddiannus.

Dewisir y rôl gan grŵp a fydd â phrofiad byw fel rhan annatod o'i gyfansoddiad. Bydd y meini prawf dewis yn seiliedig ar y canlyniadau a nodwyd yn y brîff.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Carys Hedd Paschalis, Pennaeth Adnoddau Dynol: ad@celf.cymru

## Sut i ymgeisio

Rydym am i'r broses ymgeisio fod mor deg â phosibl ac rydym yn addo gwneud addasiadau rhesymol er mwyn cyflawni hyn. Cysylltwch â ni os oes unrhyw addasiadau y gallem eu gwneud neu gymorth ychwanegol y gallem ei gynnig er mwyn eich cynorthwyo i wneud cais. Byddwn yn dod o hyd i opsiynau amgen addas gyda'n gilydd. Os oes angen gwybodaeth arnoch mewn fformatau eraill neu help i wneud cais, cysylltwch â ni trwy'r cyfeiriad e-bost uchod.

Nid ydym yn gofyn ichi lenwi ffurflen gais ffurfiol. Yn lle, rydyn ni'n gofyn i chi gyflwyno "Mynegiant o Ddiddordeb" yn egluro yn eich geiriau eich hun pam yr hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer y rôl. Rydym yn gofyn ichi wneud hyn trwy anfon llythyr atom sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Dweud wrthym pam mae gennych ddiddordeb yn y rôl hon
- Disgrifio'r wybodaeth a'r profiad penodol y byddwch chi'n dod â nhw i'r rôl
- Amlinellu sut rydych chi'n gweld y rôl yn cael ei chyflawni

Dylid anfon eich llythyr at: ad@celf.cymru

Byddem yn ddiolchgar pe gallai eich Mynegiant o Ddiddordeb ein cyrraedd erbyn **Dydd Mercher 10fed Mawrth 2021** fan bellaf.

Byddwn yn cynnal cyfweliadau ar 24ain a/neu 25ain Mawrth 2021.